

Cofnodion Cyfarfod 2/3/23 2023

Y Maer Rhys Evans, Y Dirprwy Faer Eifion Roberts, Jacqueline Allen, Dilys Evans, Clare Mackintosh, Moira Mai, Tony Parry, John C Williams

Dilwyn Morgan, Cyngor Gwynedd

Lis Puw (Clerc).

Ymddiheuriadau: Eluned Jones, Fiona Hopkins, Sion McGuinness

1. **Croesawyd** pawb gan y Maer a gyfeiriodd at enedigaeth Michael D Jones 201 o flynyddoedd yn ôl. Estynnodd ei longyfarchiadau i dîmau hoci'r bechgyn dan 12 a than 15 sydd yn bencampwyr gogledd Cymru ac yn chwarae yng Nghaerdydd yn fuan.
2. **Buddiant:** Derbyniwyd datganiad buddiant gan Dilys Evans yn eitem 8, sef cais cynllunio HSBC NP5/53/L41U.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 2/2/23.
4. **Materion y Clerc:** yn cynnwys
 - i. 4ii Biniâu baw ci: anfonwyd map o leoliadau angenrheidiol at Gyngor Gwynedd ond ni ddaeth ymateb hyd yn hyn. Ymatebwyd i neges gan aelod o'r cyhoedd am y bin wrth bont Tryweryn.
 - ii. 10i Ffair Y Bala: diolchwyd am ymateb Cyngor Gwynedd a'r cynnig i gyfarfod. Cytunwyd i ofyn i'r Grŵp Busnes drefnu'r cyfarfod ar adeg cyfleus iddynt hwy gan fod tri Cyngorydd yn aelodau o'r grŵp hwnnw.
 - iii. 10iv Ni chafwyd ymateb gan Dŵr Cymru i broblem carthffosiaeth yn ardal Cae Bach, ond derbyniwyd gwybodaeth am waith sydd mewn llaw mewn ardaloedd eraill o'r dref.
5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cyngorydd Gwynedd. Rhoddodd wybodaeth am lefel y dreth cyngor. Mae NMWTRA wedi cychwyn ar y gwaith o docio'r coed ar y Stryd Fawr. Cytunwyd i gefnogi ei awgrym fod y meinciau o flaen Awen Meirion yn feinciau cyfeillgarwch. Tynnwyd ei sylw at y draen sydd wedi creu pant yn ardal parcio bysus yn y Grîn. Dywedodd y Cyngorydd fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi creu llwybr wrth eu Swyddfa a'u bod yn bwriadu creu perllan fach yno.

6. **Cyfoeth Naturiol Cymru** - cyflwynodd Tony Parry yr adroddiad misol. Diolchwyd iddo ef a John Caradog Williams am leoli 2 fainc yn ardal Blaenddol. Cytunwyd i ofyn i Martin Jones wneud y gwaith o'u diogelu. Mae 2 fainc arall yn cael eu cadw ar hyn o bryd yn y Clwb Rygbi tan y bydd lleoliadau wedi eu hadnabod.

7. **Is-bwyllgorau:**

Bioamrywiaeth Derbyniwyd copi o'r Cynllun Bioamrywiaeth a bydd trafodaeth arno yng nghyfarfod mis Ebrill.

Asedau: Mae'r fainc a oedd angen ei thrwsio wedi derbyn sylw ac yn ôl yn ei lle. Diolchwyd i John Caradog Williams am osod y baneri yn ôl yn eu lle.

8. **Materion Cynllunio:** Cymeradwywyd cais **NP5/53/L41U** HSBC, sef newidiadau i'r ATM.

9. **Materion Cyllid:**

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r gwariant tebygol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- ii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis, sef
 - a. Cytundebau: £522
 - b. Canolfan Henblas: Rhent £240
 - c. Clerc: Zoom (traean o'r gost): £47.96
 - d. Un Llais Cymru: tâl aelodaeth £398
 - e. Cyngor Gwynedd: 4 Garland Nadolig a gosod goleuadau Nadolig £1800
 - f. Awen Meirion: Baneri
- iii. Cytunwyd i hysbysebu Cytundebau 3 mlynedd yn cychwyn o Ebrill 1af 2023:
 - a. Glanhau Llochesi Bws
 - b. Cynnal a chadw'r Domen
- iv. Lwfansau Cynghorwyr – tynnwyd sylw'r Cynghorwyr at ohebiaeth Hill & Roberts
- v. Cytunwyd i gyfrannu £2000 (allan o'r cyfrif cyfalaf) i Eisteddfod Powys fel ag addawyd yn 2019
- vi. Cytunwyd i wneud cyfraniadau cymunedol fel a ganlyn:

Eisteddfod Gylch Penllyn	£200
Clwb Bowlio	£400
Clybiau Ffermwyr Ifanc	£300

Elusen Cym Gymunedol Bala a Phenllyn	£1,000
Clwb hoci	£300
Cantref	£200
Parc Heol y Castell	£200
Teulu Berwyn	£350
Cymdeithas genweirio	£300
Clwb Criced i'r Ifanc	£300
Ambiwlans Awyr	£100

10. Gohebiaeth:

- i. Nodwyd cyfarfod 10/3/23 i drafod problemau'r haf gyda'r Heddlu; bydd y Maer yn mynychu.
- ii. Ystyriwyd cais am gefnogaeth gan Rheilffordd Llyn Tegid; cytunwyd i ysgrifennu at Barc Cenedlaethol Eryri i fynegi siomedigaeth yn y broses 9 flynedd o hyd gan fod tebygolrwydd y bydd y cais yn cael ei wrthod, ac i fynegi cefnogaeth gref i gynllun Rheilffordd Llyn Tegid.
- iii. Nodwyd derbyn copi o lythyr Mabon ap Gwynfor at Gyngor Gwynedd parthed cwynion a dderbyniodd am feiciau modur yn parcio wrth gerflun Tom Ellis.
- iv. Derbyniwyd diolch Mabon ap Gwynfor am gefnogaeth y Cyngor i gadw'r gwasanaeth Ambiwlans Awyr.
- v. Nodwyd derbyn Adroddiad Blynyddol IRP "Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr".
- vi. Nodwyd derbyn gwybodaeth am waith Dŵr Cymru yn Y Bala.
- vii. Ystyriwyd holiadur Parc Cenedlaethol Eryri am barcio ar lan Llyn Tegid a gofynnwyd i'r Clerc ymateb ar ran y Cyngor. Tynnwyd sylw at y gwahoddiad i gyfarfod Zoom ar 8/3/23 a chytunodd y Clerc i anfon enwau'r Maer a'r Dirprwy Faer ar gyfer cofrestru. Mae Tony Parry wedi cofrestru eisoes.

11. Cwmni Pum Plwy Penllyn: Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr. Cyfeiriwyd at gyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Tref, Lowri Cadwaladr o'r Adran Eiddo, Cyngor Gwynedd a Chwmni Pum Plwy Penllyn. Roedd pawb yno o'r farn bod trosglwyddo lês Canolfan Tegid i ofal Cwmni Pum Plwy Penllyn yn ddymunol, ond roedd yr Adran Eiddo'n dymuno edrych ymhellach i oblygiadau'r ffaith fod y Pwyllgor presennol wedi cofrestru fel Elusen.

12. Materion lleol y Cyngorwyr Tref

- i. Siop Elusen Hosbis Dewi Sant: Dywedodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan ei fod wedi cael cyfarfod brys gyda'r Prif Weithredwr ond yn siomedig iawn mae siop Y Bala yn un o bedwar sy'n cau. Mae'n awyddus ffurfio grŵp o wirfoddolwyr fel bo presenoldeb i'r elusen yn yr ardal. Cytunwyd i anfon llythyr at Trystan Pritchard yn mynegi siom y Cyngor yn y penderfyniad hwn.

- ii. Rhoddodd Jacqueline Allen adroddiad o'r defnydd da a wneir o'r cinio a lle cynnes yn y Pafiliwn. Bydd y gwasanaeth yn parhau tan ddiwedd Ebrill ac yn ail-gychwyn yn yr Hydref.
- iii. Plains Rally: adroddodd y Maer fod y grŵp hwn yn werthfawrogol iawn o'r croeso a'r ddarpariaeth a gafwyd yn Y Bala llynedd, a'u bod yn dymuno dychwelyd eleni (ar 22/5/23) ac o bosib am rai blynyddoedd i ddod.

Dyddiad y cyfarfod nesaf 6/4/23